

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Atebion i'ch Cwestiynau

1) Yn ddiweddar, cefais wybod bod TrC yn bwriadu defnyddio [yr iard yn Heol Tŷ Mawr] ar gyfer y prosiect trydaneiddio. A fydddech cystal â rhoi gwybod i mi ar gyfer pa rannau o'r trac fydd yr iard/man mynediad hwn yn cael ei ddefnyddio i'w gwasanaethu h.y. a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn ystod y prosiect trydaneiddio hyd at Heol y Frenhines?

Bydd yr iard yn cael ei defnyddio i wasanaethu gwaith amlddisgyblaethol (nid dim ond gwaith trydaneiddio) am oddeutu dwy filltir i'r naill gyfeiriad a'r llall.

2) Rwy'n nodi bod TrC wedi prynu tir yn ddiweddar yn Mynachdy. A allech ddweud wrthyf beth yw'r cynlluniau ar gyfer y tir hwn?"

Nid yw TrC wedi prynu tir yn Mynachdy. Cafodd y pryniant ei wneud gan Lywodraeth Cymru fel cyfle datblygu posibl. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau wedi'u datblygu eto y gellir eu rhannu â'r cyhoedd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".